

Cymru a'r Byd yn y Pedwaredd Ganrif ar Bymtheg: *Y Gwyddoniadur Cymreig*

Robert Evans

Dair wythnos yn ôl bu gwasanaeth er cof am Marian Henry Jones, gwraig yr oedd nifer ohonom yn ei hadnabod. Yn llyfrgell tŷ Marian, ar Ffordd Caradog yn Aberystwyth, arferwn achub y cyfle i astudio ei chopi o'r *Gwyddoniadur Cymreig*. Ar ben hynny, fe gysylltais gyntaf â Marian trwy ei herthygl 'Wales and Hungary' (darlith a draddodwyd i'r Cymmrodorion yn y chwedegau yn wreiddiol), sydd yn berthnasol iawn i'm pwnc heno. Ynddi fe draethodd am dwf cenedlaetholdeb ar y cyfandir (yn enwedig mudiad Lajos Kossuth yn Hwngari) a'i atsain yng Nghymru wedi'r flwyddyn chwyldroadol 1848.¹ Dyna fan cychwyn addas – fel y gwelwn ni, gobeithio. Ond i ddechrau, gadewch imi gyflwyno rhai manylion.

Ymddangosodd *Y Gwyddoniadur Cymreig neu Encyclopaedia Cambrensis* (mae'r tudalen deitl yn defnyddio'r ddau fersiwn fel ei gilydd) mewn deg cyfrol yn y blynyddoedd 1854–79. Dyma'r fenter gyhoeddi fwyaf erioed yn y Gymraeg. Fe gostiodd o leiaf ugain mil o bunnoedd, swm anhygoel yn y Gymru oedd ohoni.² Cynhwysai dros saith mil a hanner o dudalennau, wedi eu printio yn dynn ac mewn colofnau dwbl, bron ddeng mil o erthyglau yn y diwedd, gwaith dros dau gant o 'brif ysgrifenywyr', fel y'u gelwid.³

Profodd y *Gwyddoniadur* yn llwyddiant mawr: gwerthwyd tair i bedair mil o gopiâu ar unwaith, mewn rhifynnau, am swllt yr un, deuddeg ohonynt yn gwneud cyfrol. Dilynodd adargraffiadau lu, gydag ailargraffiad – ailolygiad i raddau helaeth – rhwng 1889 a 1896 (mwy am hynny yn ddiweddarach).

Pwy a wnaeth y gwaith? Yr oedd yr awduron yn ddiennw, ond mae modd dyfalu yn aml (fel pawb sydd wedi ymdrin â hynny, yr wyf yn ddyledus i ymchwil arloesol Roger Jones Williams). Yng nghanol y weithred safai'r argraffydd o Ddinbych, Thomas Gee: *entrepreneur* hirben a phenderfynol. Ef a drafododd y cynlluniau rhagarweiniol â dau ddydd yr oedd y naill a'r llall yn ymwneud â geiriaduron ac amryfal gynyrchiadau llenyddol: Daniel Silvan Evans, a Robert John Pryse (a oedd yn fwy adnabyddus dan ei ffugenw, Gweirydd ap Rhys). Yn ystod y pumdegau datblygodd rhwyg rhwng Silvan a'r ddau arall, ynglŷn â phenderfyniadau dadleuol ynghylch orgraff a geirfa y *Gwyddoniadur*, yn fwy na thebyg.⁴

Arhosodd Gweirydd yn edmygwyr o Gee ('a real man of business', meddai); ef

- 1 Marian Henry Jones, 'Wales and Hungary', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1968), 7–28; cf. E. Wyn James a Bill Jones (gol.), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst, 2009), tt. 31–83.
- 2 Roger J. Williams, 'Thomas Gee a'i *Gwyddoniadur*', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Dinbych*, 22 (1973), 209–35.
- 3 Gweler eu henwau: *Gwyddoniadur Cymreig* (2 arg., 11 cyf., Dinbych, 1889-96), I, 'Rhagymadrodd'.
- 4 Roger J. Williams, 'Hanes Cyhoeddi'r *Gwyddoniadur Cymreig*', *Llên Cymru*, 9 (1966), 138ff.; T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), tt. 153–7; Silvan Evans, *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953) s.v.; *Oxford Dictionary of National Biography* (60 cyf., Rhydychen, 2004), s.v.

a sgrifennodd y gyntaf un o'r erthyglau, ac o leiaf 400 erthygl arall gyda'i gilydd; gweithredodd fel cyd-olygydd am gyfnod.⁵ Ar yr un pryd creodd gyfres o weithiau ar hanes a llên Cymru, dathliad o 'enwogion y ffydd', a geiriaduron, gan barhau i fod cyn dloted â llygoden eglwys.⁶

Penodwyd John Parry, mab-yng-nghyfraith Gee, fel prif olygydd, a bu yntau'n awdur mwy na 500 tudalen o ddeunydd. Yr oedd ef yn ddyn trylwyr a chydwybodol, a'r sôn amdano yn addas ar gyfer ei dasg: 'nid ymddengys fod ynddo unrhyw wreiddioldeb'. Am bron ugain mlynedd parhaodd yr holl brosiect yn nwylo Gee, Gweirydd a Parry, hyd 1874, pan fu farw Parry, a barhaodd yn weithgar hyd y diwedd (yr oedd newydd orffen y prifair 'Platon', ac ar fin sgrifennu 'Rhesymeg').⁷ Ar ôl hynny cymerodd Gee ei hunan drosodd fel golygydd beunyddiol, er gwaethaf ei ddyletswyddau beichus yn ei fusnes a'r gymdeithas leol.

Amlygodd nifer o bobl eraill ymrwymiad penodol i'r *Gwyddoniadur*: Owen Thomas, pregethwr enwog yn Llundain ac wedyn yn Lerpwl, a sgrifennodd y Rhagymadrodd cynhwysfawr, sy'n cwblhau'r gwaith (mwy am hynny hefyd yn ddiweddarach).⁸ Dywedwyd i David Hughes, Llanddeiniolen, gyfansoddi '[c]ryn nifer o ysgrifau'r *Gwyddoniadur*'; John Ogwen Jones, Lerpwl, Croesoswallt a Rhyl, a olygodd atodiad yn y gyfrol olaf; Robert Edward Williams, Llanddeusant, a oedd yn gyfrifol am lawer o'r cynnwys gwyddonol.⁹

Gallwn helaethu'r rhestr. Ond bydd un peth yn eglur iawn yn barod i'r rheiny sy'n gyfarwydd â'r enwau hyn: Anghydfurfwr oeddent i gyd, fel y mwyafrif llethol o'r cyfranwyr. Nid Anghydfurfwr lleyg yn unig, ond pregethwyr gan mwyaf: yr oedd tri-chwarter y 'prif-ysgrifenywyr', cyfanswm o 151, yn weinidogion.¹⁰ Ac ymhlith yr Anghydfurfwr y Methodistiaid Calfinaidd oedd amlycaf: yn ei swydd ffurfiol bu Parry yn gyd-athro â Lewis Edwards yng Ngholeg y Bala.

Nodwedd gyffredin arall: rhannai y dynion hyn fel arfer gefndiroedd diymhongar iawn: o fythynnod fferm yn y gogledd y daeth llawer ohonynt. Dechreuodd Owen Thomas fel saer maen; gweithiodd John Ogwen Jones fel gwas mewn swyddfa marsiandwr. Hawlia *Hunangofiant* Gweirydd (testun braidd yn rhyfedd, ond dadlennol) mai dau ddiwrnod o ysgol yn unig a gafodd trwy ei holl febyd, ond wrth iddo ddysgu crefft y gwehydd astudiodd eiriadur Thomas Jones – hyd at y llythren 'G'.¹¹

5 Gweirydd ap Rhys, *Detholiad o Hunangofiant*, gol. Enid P. Roberts (Llandysul, 1949), t. 174ff.

6 Gweirydd ap Rhys, *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* (2 cyf., Llundain, 1972-4); id., *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r Flwyddyn 1300 hyd y Flwyddyn 1650* (Llundain, 1883); id. a John Peter (gol.), *Enwogion y Ffydd, neu Hanes Crefydd y Genedl Gymreig, o'r Diwygiad Protestanaidd hyd yr Amser Presennol* (2 cyf., Llundain, 1878-84); ac yn y blaen.

7 Cofiant Parry gan Owen Thomas yn *Gwyddoniadur* (2 arg.), I, 'Rhagymadrodd', t. xix; *Bywgraffiadur Cymreig*, s.v.; D. Densil Morgan, *Lewis Edwards* (Caerdydd, 2009), 97ff.

8 J. J. Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas* (Caernarfon, 1912), yn arb. t. 519ff.; *Bywgraffiadur Cymreig*, s.v.; ODNB, s.v.

9 R. Elwyn Hughes, *Nid am un Harddwch Iaith: Rhyddiaith Gwyddoniaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1990), 35, 136-9, 188.

10 *Gwyddoniadur* (2 arg.), I, 'Rhagymadrodd': 160 'parchedig', 52 lleyg (gan gynnwys tair dynes).

11 Gweirydd ap Rhys, *Hunangofiant*, t. 114.

Dychwelwn yn awr at ddarlith Marian Henry Jones ac at yr agwedd genedlaethol. Cyd-ddigwyddodd creu'r *Gwyddoniadur* ag anterth proses o Seisnigeiddio diwylliant a byd cyhoeddus Cymru. Gellir honni bod y *Gwyddoniadur* yn rhan o'r ymatebion i'r her hon.

Yr oedd canlyniadau yn y diwylliant gwleidyddol: cyfrannodd Gwilym Hiraethog, edmygrwr mawr Kossuth, at y *Gwyddoniadur* a haeddodd fywgraffiad hir ynddo ar ôl iddo farw.¹² Cydweithiodd sefydlydd arall newyddiaduraeth radicalaidd Gymraeg, y Parch. Roger Edwards, yr Wyddgrug, yn agos â Lewis Edwards ac Owen Thomas.¹³ Erbyn diwedd y pumdegau cododd bwrlwm gwrth-Doriaidd hyd yn oed yn y Bala ei hun.¹⁴

Fodd bynnag mae'r ymateb o ran ysgolheictod ymneilltuol a diwylliant crefyddol yn bwysicach o'r safbwynt presennol. Ychydig cyn i ddyllanwad Kossuth a'i fath gyrraedd y wlad, digwyddodd achos y *Llyfrau Gleision*: ffrae am foesoldeb ac addysg.¹⁵ Ond am ddysg hefyd, digon i beri gofid i sylwebydd a ddatganodd ym 1848: 'Y mae rhyw dyb rhyfedd wedi ei [f]abwysiadu genym fel cenedl yn gyffredinol, mae bod yn *Sais* yw bod yn *ysgolhaig*.'¹⁶ Ar unwaith sbardunwyd Ebenezer Thomas, 'Eben Fardd', un o'r llenorion Methodistaidd mwyaf gweithgar ganol y ganrif, i gyfeithu dwy gyfrol o erthyglau o *Chambers' Information for the People*.¹⁷

Bu agweddau crefyddol hefyd yn arwyddocaol: bygythiad cynyddol Mudiad Rhydychen ac – yn fwy ysgeler fyth – Eglwys Rufain a ailsefydlodd ei hofferiadaeth esgobol ym Mhrydain Fawr yn 1850; canlyniadau cyfrifiad 1851, a gadarnhaodd fod tri chwarter poblogaeth Cymru wedi ymwahanu o'r eglwys Anglicanaidd.¹⁸ Tanlinellodd hyn oll y ffaith fod Anghydfurfwyr yn disodli cenedlaeth yr 'hen bersoniaid llengar' anglicanaidd fel arweinwyr diwylliannol, a bod y Methodistaidd Calфинаidd, fel yr unig enwad hollol Gymraeg, yn yr oruchafiaeth.¹⁹

12 Ieuan Gwynedd Jones, *Mid-Victorian Wales. The Observers and the Observed* (Caerdydd, 1992), tt. 103–65.

13 T. M. Jones, *Cofiant y Parch. Roger Edwards, yr Wyddgrug* (Wrecsam, 1908), heb sôn am y *Gwyddoniadur*; *Bywgraffiadur Cymreig*, s.v.; *ODNB*, s.v.

14 Ieuan Gwynedd Jones, 'Merioneth Politics in the Mid-Nineteenth Century', yn ei *Explorations and Explanations. Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1981), tt. 83–162; Morgan, *Lewis Edwards*, t. 159ff.

15 Prys Morgan (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision. Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 1991); Gwyneth Tyson Roberts, *The Language of the Blue Books. The Perfect Instrument of Empire* (Caerdydd, 1998).

16 Dyfyniad o E. G. Millward, 'Pob Gwybodaeth Fuddiol', yn Morgan (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision*, tt. 146–65 (t. 153). Cf. Roberts, *Language of the Blue Books*, t. 173: '[Welsh] mental faculties, in so far as they are not engrossed by the hardships of the rustic, or the intemperance of manufacturing life, have hitherto been exerted almost exclusively upon theological ideas.'

17 *Addysg Chambers i'r Bobl* (Pwllheli/Caernarfon, 1849–51); cf. Millward, 'Pob Gwybodaeth Fuddiol', tt. 155–7.

18 A. Tudno Williams, *Mudiad Rhydychen a Chymru* (Dinbych, 1983); Ieuan Gwynedd Jones, *Communities. Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1987).

19 Cf. John Gwynfor Jones (gol.), *Hanes Methodistaeth Galфинаidd Cymru*, 3 Cyf.: *Y Twf a'r Cadarnhau* (Caernarfon, 2011), yn arb. tt. 187–224.

Y cymeriad allweddol oedd Lewis Edwards, cyfaill a chyfarwyddwr Parry yn y Bala a chydweithiwr Gee, Owen Thomas ac eraill. Yr oedd Edwards newydd lansio cylchgrawn trimisol *Y Traethodydd*, a ddatganodd ei genadwri: ‘at wasanaeth crefydd, duwinyddiaeth, athroniaeth a llenyddiaeth’.²⁰ Gwasanaethodd fel arfogaeth fewnol yn ogystal: yn nhyb Edwards yr oedd angen gwareiddio’r Methodistiaid eu hunain. Dyma’i eiriau ym 1852: ‘Dylai [gweinidog] ragori ar y cyffredin mewn gwymbodaeth, mewn doethineb, mewn moesoldeb, mewn boneddigeiddrwydd Cristionogol.’²¹

Cynorthwyodd yr amgylchiadau cartref hyn i sicrhau llwyddiant y *Gwyddoniadur*. Ysgolion Sul ledled Cymru a wnaeth yn bosib gylchrediad eang iddo.²² Trawodd nodyn â’r cyhoedd: cynaeafodd lawer o glod yn y wasg Gymraeg a Chymreig, gan mwyaf ymysg yr enwadau, ond nid yno yn unig.²³ ‘It seems to me a work of great promise’, sgrifennodd yr eglwyswr John Williams, cyn-archddiacon Ceredigion, ar ddechrau’r gwaith: ‘I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle’. Anfonodd ei argymhellad o Bognor Regis lle’r oedd wedi ymddeol. Yr oedd ei eiriau yn dal ar y brig yn hysbysebion y *Gwyddoniadur* ddeugain mlynedd yn ddiweddarach.²⁴

Cyd-ddigwyddodd creu’r *Encyclopaedia Cambrensis* hefyd â llu o wyddoniaduron ar y cyfandir, lle bu iddynt chwarae rhan bwysig ym mudiadau diwylliannol a gwleidyddol cenhedloedd yno. Yn y *Gwyddoniadur* ei hunan mae ‘Rhagymadrodd’ dysgedig Owen Thomas, dyddiedig o Lerpwl yn 1879, yn braslunio datblygiad cyffredinol yn Ewrop. Ac eithrio Prydain, crybwylla Ffrainc a’r Almaen, a dilyn y genre yn ôl i Bayle, Chambers, Zedler ac wrth gwrs i’r esiampl enwocaf, gwaith Denis Diderot a’i dîm o *philosophes* Ffrengig, *L’Encyclopédie ou Dictionnaire raisonné des sciences, des arts et des métiers* (a oedd yn gampus ond yn rhy anghrediniol, meddai Thomas).²⁵

Ailadroddwyd y persbectif hwn yn fras gan Gee wrth gyflwyno’r ailargraffiad: ‘Yr hyn a’ m cymmhellodd i ymgymeryd â’r gorchwyl gyntaf oedd yr ystyriaeth fod gan bob cenedl wareiddiedig, o’r bron, ei “Gwyddoniadur” (“*Encyclopaedia*”).’²⁶ Mae’n debyg ei fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyhoeddwy ac argraffwyr yn y busnes o gynhyrchu gwyddoniaduron mewn manau eraill; yn aml cynhwysai’r gweithiau eu henwau hwy yn eu teitlau. Ond yr oedd Ewrop yn darparu arwyddion rhydd hefyd. Dechreuwyd y prosiect mwyaf enfawr, *Allgemeine Encyclopädie der Wissenschaften und Künste*, yn 1818 yn Leipzig gan Johann Samuel Ersch a

20 Morgan, *Lewis Edwards*, tt. 101ff.; Jones (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, III, tt. 198–200, 254ff.

21 Morgan, *Lewis Edwards*, t. 135.

22 Jones (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, III, t. 230.

23 Williams, ‘Hanes Cyhoeddi’r *Gwyddoniadur Cymreig*’, t. 151ff.

24 Dyna’r gymeradwyaeth gyntaf ar ddechrau *Gwyddoniadur* (2 arg.), t. x.

25 *Gwyddoniadur* (1 arg.), x, ‘Rhagymadrodd’, yn arb. tt. vii–viii.

26 *Gwyddoniadur* (2 arg.), i, tt. xlix–lii.

Johann Gottfried Gruber: erbyn 1854 cynhyrchwyd 112 rhan, oddeutu 500 tudalen yr un²⁷ (yn y diwedd rhoddwyd y ffidil yn y to heb orffen y gwaith yn 1889). Yn y cysylltiad hwn teg tybio mai syniad da gan Gee oedd hepgor cymorth Silvan Evans, na chyrrhaeddodd ei lafur oes, y *Geiriadur Cymraeg*, y tu hwnt i'r llythyren 'E'.

Erbyn pumdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg felly yr oedd hen draddodiad o gyfeirlyfrau ym mhrif ieithoedd y cyfandir. Ond beth am ddeunydd mewn ieithoedd *lleiafrifol*? Yr oedd *Gwyddoniadur Cymreig* – 'Gees Konversationslexikon', fel petai – ar flaen y gad. Os chwiliwn ymysg cenhedloedd o'r un maint a'r un diffyg ymreolaeth â'r Cymry, nid oes dim – hyd y gwn i – yn cyfateb o gwbl. Nid oes arwydd o waith o'r fath gan (dywedwn) y Llydawiaid, y Slofeniaid, pobloedd y Baltig a'r Balcanau yr un modd, cyn yr ugeinfed ganrif, heb sôn am ddegawdau yn gynharach.

Awn lefel yn uwch a chymerwn ddwy engraifft arall. Yn Sgandinafia cafodd y Daniaid a'r Swediaid eu gwyddoniaduron cyntaf dipyn cyn canol y ganrif, ond yr oedd y cyhoeddiadau hynny yn llai na'r un Cymraeg. Yn Norwy yr oedd angen aros tan 1907–13 am chwe chyfrol dan y teitl *Illustreret norsk konversationsleksikon*.²⁸ Yng nghanol a dwyrain Ewrop gallwn wneud cymhariaeth ddadlennol â thair cenedl a oedd yn fwy niferus o lawer na'r Cymry, ond heb annibyniaeth: y Pwyliaid, y Tsieciaid, a'r Hwngariaid.

Nid oedd gan yr un ohonynt eto wyddoniadur ar y gweill yn 1854. Ond cyn cwblhau'r *Encyclopaedia Cambrensis* gwiredwyd dwy fenter gyffelyb. Yn Warsaw, sef yn rhan Rwsiaidd yr hen Wlad Pwyl, ymddangosodd *Encyklopedia Powszechna* y cyhoeddwr Samuel Orgelbrand mewn 28 cyfrol rhwng 1859 a 1868; ym Mhrag, ym Mohemia, daeth o'r wasg *Riegrův slovník naučný* mewn 11 cyfrol rhwng 1860 a 1874, gyda gwleidydd Tsiec disglair František Ladislav Rieger yn brif olygydd. Yn Hwngari ni chyhoeddwyd gwyddoniadur gwreiddiol, *Lexikon mawr* y tŷ cyhoeddi Pallas, tan y nawdegau, gan gyd-daro ag ail argraffiad gwaith cyfatebol yng Nghymru ac â marwolaeth gwron y genedl, Lajos Kossuth, wedi mwy na deugain mlynedd mewn alltudiaeth.²⁹ Yn fuan ar ôl hynny ymddangosodd tair cyfrol yr *Enciclopedia Română*, ar gyfer Rwmaniaid Transylvania, lleiafrif mwyaf Hwngari ar ôl y Magyariaid.

Trown at gynnwys y *Gwyddoniadur* yn y cyd-destun hwn.³⁰ Yr oedd gan bob un o'r cyfeirlyfrau dan sylw uchelgais i ddarparu gwybodaeth gyffredinol. Ar dudalen deitl y *Gwyddoniadur Cymreig* hysbysir 'duwinyddiaeth, athroniaeth a henafiaethau', sydd yn debyg iawn i'r pynciau a grybwyllais yn flaenorol a oedd

27 A-G = 59 Teile; H-N = 30 Teile; O-Z = 23 Teile (hyd y llythyren 'P' pryd hynny).

28 *Conversations-Lexicon eller encyclopædisk Haandbog over de i selskabelig Underholdning og ved Læsning forekommende Genstande, Navne og Begreber* (28 cyf. diwyg bychan, Copenhagen, 1816–28); *Svenskt Konversationslexikon* (4 cyf., Stockholm, 1845–51); *Illustreret norsk konversationsleksikon (Aschehougs konversationsleksikon)* (6 cyf., Oslo, 1907–13).

29 *Pallas nagy lexikona* (16 cyf., Budapest, 1893–7).

30 Cf. Williams, 'Thomas Gee a'i *Gwyddoniadur*'; id., 'Rhai Sylwadau ar Gynnwys y *Gwyddoniadur Cymreig*', *Llên Cymru*, 12 (1972–3), 92–116.

yn sylfaenol debyg i raglen *Y Traethodydd* hefyd. Dyna, heb os, graidd amcan gwreiddiol trefnwyr y *Gwyddoniadur*. Cofiwn am Parry druan yn ei gystudd olaf yn mynd i'r afael â 'Platon' a 'Rhesymeg'.

Ond gydag amser daeth y cynnwys yn ehangach o lawer. Ymestynnodd ystyr hynafiaeth i drafod materion hanesyddol yn gyffredinol; atodwyd agweddau ar ddaearyddiaeth a llenyddiaeth. Nodedig yw'r driniaeth o'r gwyddorau: yr enghraifft fwyaf rhagorol ydyw'r testun cynhwysfawr a darluniedig ar 'Anianyddiaeth corff dynol'.³¹ Atodwyd bywgraffiaeth hefyd, yn aml yn null moesegol a phregethwrol yr oes. Dyna fuchedd Benjamin Franklin; neu un Ebenezer Morris, cyfansoddwr Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd, sy'n 24 tudalen o hyd.

Dyma ddeunydd a oedd yn gyffredin i unrhyw wyddoniadur gwerth ei halen. Hoffwn droi i ganolbwyntio yn hytrach ar arweddion neilltuol y *Gwyddoniadur Cymreig*. Pa bethau a oedd yn nodweddiadol ohono, yn gynrychiadol o Gymru yn y cyd-destun Ewropeaidd? Yr wyf am awgrymu bod tri ohonynt.

Nid oes ddwywaith nad oedd crefydd a diwinyddiaeth ar ben y rhestr. Yr oedd y betws cyn bwysiced â'r byd, yn enwedig ar gychwyn y *Gwyddoniadur*. Mae hynny gryn dipyn yn gamarweiniol, oherwydd bod y cynllun gwreiddiol i lansio 'dosbarthiadau' o erthyglau yn neilltuol, a'r rhai crefyddol i ymddangos yn gyntaf. Ond yr oedd hyd yn oed y bedwaredd gyfrol yn cychwyn â 25 tudalen ar '[Dd] uwinyddiaeth naturiol', gan ddilyn ag erthygl ar '[Dd]wfr', lle mae llynnoedd a ffynhonnau'r Beibl yn amlwg iawn. Mae'r holl destun yn heidio gan filoedd, yn llythrennol, o broffwydi llai, o lwythau'r Hen Destament, o leoedd sy'n cael eu crybwyll yn yr Efengylau, ac ati.

Yr oedd hyn oll yn gweddu i alluoedd y cyfranwyr, y fyddin o barchedigion. Gellir adnabod dylanwad Owen Thomas, a 'gyflawnodd yr orchest o ddysgu'r Testament Newydd i gyd ar ei gof, tra oedd yn blentyn yn yr ysgol Sul'.³² Yr oedd David Hughes newydd lunio ei *Eiriadur Ysgrythyrol a Duwinyddol* a John Ogwen Jones ar fin cyhoeddi darlithiau ar *Hanesiaeth a Gwyddoniaeth y Beibl, yn Wir a Chywir*.³³ Mae'r sylw a roddwyd i fywyd a defodau'r Iddewon yn y gorffennol a'r presennol o bosib yn adlewyrchu cydweithrediad John Mills, hyrwyddwr cynnar eu rhyddfrenio a'u tröedigaeth i Gristnogaeth.³⁴

Yn yr ystyr hwn dylem gymharu'r *Gwyddoniadur* â gweithiau cyfatebol ar y cyfandir, fel *Kirchenlexikon* gan Wetzer a Welte (13 cyf., 1847–60); *Realenzyklopädie für protestantische Theologie und Kirche* gan Herzog (22 cyf., 1854–66 – yr oedd Owen Thomas yn un a oedd yn ymwybodol o hyn); hyd yn oed y geiriadur catholig Pwyleg, *Encyklopedja Kościelna*, a ymddangosodd mewn 33 cyfrol dros drigain mlynedd o 1873 ymlaen. Y gwahaniaeth mwyaf

31 *Gwyddoniadur* (1 arg.), IV, tt. 75–107; cf. Hughes, *Nid am un Harddwch Iaith*.

32 Jones (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, III, t. 228.

33 Hughes a Jones: *Bywgraffiadur Cymreig*, s.vv.; *ODNB*, s.vv.

34 John Mills, *Iddewon Prydain* (Llanidloes, 1852), cyfieithwyd ac ehangwyd fel *The British Jews* (Llundain, 1853). Cf. Leonard Mars, 'A brit zsidóság első etnográfiai leírása. John Mills *The British Jews* című munkájának áttekintése [The First Ethnography of British Jewry: An Examination of *The British Jews* by John Mills]', yn *Az elkerülhetetlen: vallásantropológiai tanulmányok Vargyas Gábor tiszteletére*, gol. Ildikó Landgraf a Zoltán Nay (Budapest, 2012), tt. 545–54.

trawiadol rhyngddynt a'r *Gwyddoniadur Cymreig* o ran crefydd yw bod pwyslais yr *Encyclopaedia Cambrensis* am resymau amlwg yn gyson ar dystiolaeth y Beibl.

Serch hynny mae hanes eglwysig yn llenwi llawer o dudalennau yn ogystal. Tuedda'r egluriau i fod yn Brotestannaidd, yn aml gydag arlliw ymneilltuol. Cafodd y brenin Siarl I un tudalen, tra haeddodd Cromwell ddeg. Yr oedd agweddau at yr eglwys sefydledig yn wahanol. Anglicanwyr oedd lleiafrif helaeth o awduron y cyfraniadau (ac y rydym eisoes wedi cyfarfod â chymeradwyaeth o'r cyfeiriad hwnnw); ond bu rhai prifeiriau, 'Tractariaeth' er engraifft, fel cadach coch i darw. Yn ei erthygl ar 'Anghydfurfiaeth' mae Hiraethog yn cwyno – fel petai'n Martin Luther ailanedig – am ailadeiladu eglwys gadeiriol Sant Pawl ar ôl Tân Mawr Llundain ar dreuliau'r ymneilltuwyr.³⁵

Mwy sylfaenol fyth oedd gwrth-babyddiaeth – un o brif amcanion yr holl fenter, gan gofio am yr atgasedd Protestannaidd tuag at adnewyddiad yr eglwys Gatholig Brydeinig ar y pryd. Mae'r safbwynt yn ymddangos yn ei gwir liwiau dan brifair fel 'chwilys': 'Os gorchestgamp Satan yw Pabyddiaeth, gallwn chwaneu mai gorchestgamp Pabyddiaeth yw y llys ofnadwy hwn.'³⁶ Ond gellir teimlo ei ddylanwad hyd yn oed mewn erthygl amhleidiol ar yr olwg gyntaf, fel 'amaethyddiaeth' (sy'n ymhelaethu ar gyntefigrydd y ffermwyr pabyddol!). Wedi'r cwbl profodd y casineb tuag at Rufain yn sbardun nerthol i ddod â chyhoedd y *Gwyddoniadur* yn nes at Brydeindod a'i ysgaru oddi wrth y cyfandir (a'r Gwyddelod).

Felly cyrhaeddwn ail brif nodwedd eithriadol y *Gwyddoniadur Cymreig*: yr absenoldeb cymharol ynddo o ddylanwadau cenedlaetholaidd. 'Cymreig' neu 'Cambrensis' ydoedd, ond ym mha ystyr? Ystyr fwyn iawn, i'r gwrthwyneb i'r cyfandir (ac i Iwerddon). Yn y gyfrol gyntaf mae rhaid aros am 115 tudalen cyn cyrraedd prifair sylweddol gyda chyswllt â Chymru – ac 'Anghydfurfiaeth' yw hwnnw, fel mae'n digwydd. Mae'r chweched gyfrol yn cymryd trigain tudalen i drafod 'Jerusalem'; deg ar gyfer 'Llundain'; dim byd ar 'Gaerdydd' neu leoliadau tebyg yng Nghymru: dim ond y dinasoedd cadeiriol, sydd – yn nodweddiadol – i'w canfod dan 'Bangor ...' ('Bangor Dewi' am Dyddewi ac yyb). Ychydig sydd i'w ganfod ar ddaearyddiaeth Cymru o gwbl: ffaith sy'n gwrthgyferbynnu â geiriadur cyfoesol Owen Jones, *Cymru yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraffyddol* (Llundain 1875) – cynhyrchiad swmpus ond arwynebol a sych.³⁷ Mae hen boen y *Llyfrau Gleision* bod [Welsh] 'Sunday scholars [yn] ... better versed in the geography of Palestine than of Wales'³⁸ yn berthnasol i'r *Gwyddoniadur* hefyd. Ar y llaw arall canfyddwn ddwy erthygl anferth a gorgyffyrddol ar 'Hindustan' ac 'India' gan y cenhadwr Methodistiaidd William Pryse.³⁹

Wrth drafod gorffennol Cymru mae gwladgarwch y *Gwyddoniadur* yn ddiffuant, ond yn addfwyn ac yn arwynebol, ar lefel hanesion, nid yn egwyddor ethnig

35 *Gwyddionadur* (2 arg.), I, tt. 117ff.

36 *Gwyddionadur* (2 arg.), III, tt. 210–14 (t. 214).

37 *Bywgraffiadur Cymreig* s.v. Owen Jones (Meudwy Mon).

38 Roberts, *Language of the Blue Books*, t. 178.

39 *Gwyddionadur* (2 arg.), V, tt. 455–503; VI, tt. 112–28E; cf. Aled Jones, 'Culture, "Race", and the Missionary Public in Mid-Victorian Wales', *Journal of Victorian Culture*, 10 (2005), 157–83.

gyfundrefnol, fel ar y cyfandir. Tuedda i fod yn ddrwgdybus o (eilun)addoliad o'r canol oesoedd fel ffynhonnell y cenedlaetholdeb modern a oedd yn ffynnu mewn sawl man arall.⁴⁰ Nid damwain mohoni fod y deunydd ar hanes Cymru yn gyson â chyhoeddiad neilltuoel a rhwysgfwyr ein ffrind Gweirydd ap Rhys ar y pwnc, gwaith a gyhoeddwyd yn Llundain yn y saithdegau, gyda phortread o'r frenhines Victoria ar yr wyneb ddalen ac yn cyfnodoli (mewn ffordd hollol Seisnig) yn 1307, 1485, 1603, 1874.⁴¹

Y drydedd agwedd arbennig: yr oedd y *Gwyddoniadur Cymreig* yn neilltuoel o bwysig – hyd yn oed mewn cyd-destun Ewropeaidd – o safbwynt iaith y genedl. Yr oedd hynny'n wir am fod llythrennedd cyffredinol mor gynnar, ond rheolau orgraff a geirfa fodern mor hwyr i'w sefydlu yn y Gymraeg. Saif y *Gwyddoniadur* ar hanner ffordd hefyd ynglŷn â'r iaith, rhwng William Owen Pughe a John Morris-Jones. Dilynodd Gweirydd, fel mae'n egluro yn rhagymadrodd ei *Hanes y Brytaniaid* (yr wyf newydd sôn amdano), 'gwaith prif awduron y Cymry [...] cyn i lediaith fypwyoel ysgol y Dr Pughe ddechrau dirywio ac anystwytho'r iaith Gymraeg.'⁴² Cofiwel ei gweryl â Silvan Evans yn hyn o beth.

Daliodd nifer o gyfranwyr ar y cyfle i ddyfeisio llawer o dermau technegol newydd.⁴³ Mae'r prifair am y 'corff dynol' yn cynnwys 'rhestr [...] o luaws mawr o eiriau anghyffredin ac anadnabyddus [...] fel y byddo yn cymhorth i ddeall yr erthygl'.⁴⁴ Cawn ystyried y datblygiad hwn fel ymateb gweithredol i'r duedd i ddefnyddio'r Saesneg ar gyfer pob sefyllfa ymarferol – hyd yn oed, trwy'r Social Science Section, fel y'i gelwid – yn yr Eisteddfod Genedlaethol.⁴⁵ Mewn gwledydd eraill yr oedd ieithoedd lleiafrifol naill ai wedi ennill y frwydr hon yn barod, neu heb ei hwynebu eto.

Yn ystod yr wythdegau yr oedd tîm y *Gwyddoniadur* yn gorffwys ar ei rwyfau. Ond yn 1889 dechreuodd ailargraffiad. Yn y bôn penderfyniad marchnata oedd hyn gan Gee, a oedd yn dal i reoli a golygu'r holl fenter. Bellach gwerthid y gwaith fel cyfrolau yn unig. Erbyn 1996 cwblhawyd y gyfres, gyda mynegai mewn cyfrol ychwanegol. Pris y set oedd saith bunt a deg swllt.

Ailolygiad oedd hwn: tyfodd y cynnwys o tua mil o dudalennau, mewn atodiadau (am fod y tudaleniad gwreiddiol wedi goroesi yn llwyr), a bron ddwy fil o erthyglau newydd. Golygodd hynny fwy o awduron o'r hen fath, fel Hugh Williams, a fu'n saer maen, yn bregethwr, yn athro yn y Bala, ac yn arbenigwr ar Gristnogaeth gynnar.⁴⁶ Ond yn gyfochrog â hwy ceid rhai cynrychiolwyr o'r to ysgolheigaidd a

40 Gweler Huw Pryce, 'Cult, Identity, and the Medieval Revival in Victorian Wales', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, 31 (2011), 1–40; cf. Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Hen Wlad yn ei hôl, 1850–1914* (Llandysul, 1989), tt. 187–237.

41 Gweirydd ap Rhys, *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*.

42 Gweirydd ap Rhys, *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, 'Rhagymadrodd'.

43 Cf. Hughes, *Nid am un Harddwch Iaith*.

44 *Gwyddoniadur* (1 arg.), IV, t. 75.

45 Hywel Teifi Edwards, 'Gŵyl Gwalia': yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria, 1858–68 (Llandysul, 1980), tt. 53–112.

46 E.e. *Gwyddoniadur* (2 arg.), X, tt. 965–88; *Bywgraffiadur Cymreig*, s.v.; *ODNB*, s.v.

chyfathrebol newydd: J. E. Lloyd, John Rhŷs, Edward Anwyl, ac O. M. Edwards. Bu Edwards yn gyfrifol am yr erthygl ar '[G]ymru', gyda braslun o hanes y wlad. Yn nodweddiadol mae ei raniadau hanesyddol yn wahanol i rai Gweirydd: nid y dyddiadau Seisnig, ond 1284, 1536, a'r blynyddoedd o 1730 ymlaen, sy'n cael eu disgrifio fel 'cyfnod y diwygiad'.⁴⁷

Mwy arbennig fyth oedd cyfraniadau John Morris-Jones, 'Cymraeg (Yr Iaith)' ac 'Y Cymry': y pethau nesaf yn nhrefn yr wyddor at Edwards, a rhyngddynt brifair deul diddorol ar 'Cymodoliaeth a Chydfeddianaeth [Socialism and Communism]'.⁴⁸ Datganodd y Morris-Jones ifanc ei syniadau yn lle'r rhai cyntefig a hygoelus, llawn tarddiadau gwerin, a gafwyd gan Richard Williams Morgan, awdur *Hanes yr Hen Gymry: Eu Defodau a'u Sefydliadau o'r Cyfnod Boreuaf hyd yr Amser Presennol*, yn yr argraffiad cyntaf. Fel esiamplau o ysgubau newydd eraill gallwn gyfeirio at yr erthyglau ar 'Ymddatblygiad' (sef esblygiad), a geisiodd gysoni Darwin a'r Ysgrythyrau, ac ar 'Uwch-Feirniadaeth', a gyflwynodd llenyddiaeth ddiwinyddol ddiweddarach.⁴⁹

Fodd bynnag, yr un deunydd sydd yn y rhan fwyaf o ailargraffiad y *Gwyddoniadur*, am resymau masnachol, wrth gwrs. Ar y cyfan peidiodd eisoes â bod yn arloesol yn ôl safonau rhyngwladol. Yn agos i ddiwedd oes Fictoria, yng nghyfnod codiad a chwymp Cymru Fydd, yr oedd yn bryd gofyn cwestiynau am anian a phwrpas y *Gwyddoniadur*. Dair blynedd yn ôl gerbron y gynulleidfa hon tynnodd Densil Morgan sylw at newid sylweddol rhwng Lewis Edwards a'i fab Thomas Charles yn eu hagweddau at athrawiaethau Cristnogol yn eu hamgylchiadau cymdeithasol. Meddai Thomas Charles Edwards ym 1888: 'In our fathers' days it could be taken for granted that theology was the abiding concern of a huge swath of the Welsh lay folk, but can that be said of today? Now it is politics or scientific theory [...] Our young men not only have no theology but have no appetite for it at all!'⁵⁰

Mae ei sylw yn berthnasol iawn i'r *Gwyddoniadur*, a oedd wedi gwasanaethu ers cenhedlaeth anghenion gwybodaethol 'of a huge swath of the Welsh lay folk', gan bwysleisio gwreiddiau crefyddol eu diwylliant cyffredinol. Bu rhai o'i brifgyfranwyr fel Owen Thomas ymysg yr olaf o'r hoelion wyth. Yr oedd yr hen Thomas Gee yn hyderus o hyd. Ym 1897 dechreuodd drydydd argraffiad; ond yr oedd cyfnod y *Gwyddoniadur* wedi dod i ben. Dim ond un gyfrol a ymddangosodd. Bu farw Gee y flwyddyn ganlynol yn 83 oed. Mewn cyferbyniad â sawl prosiect gwyddoniadurol arall, nid oedd neb i barhau â'r gwaith.

Beth – cyn cloi – am arwyddocâd parhaol y *Gwyddoniadur*? Nodweddodd gyfnod

47 *Gwyddionadur* (2 arg.), III, tt. 88–95.

48 *Gwyddionadur* (2 arg.), III, tt. 48–79, 95–103 (Morris-Jones): dim ond crybwyllid byr iawn yn Allan James, *John Morris-Jones* (Caerdydd), t. 72. *Gwyddionadur* (2 arg.), III, tt. 79–87 (Cymodoliaeth).

49 *Gwyddionadur* (2 arg.), X, tt. 958–65, yn yr Arodiad (Ymddatblygiad); X, tt. 922–30, yn yr Atodiad (Uwch-Feirniadaeth).

50 D. Densil Morgan, 'Et Incarnatus Est. The Christology of Thomas Charles Edwards (1837–1900), *THSC* n.s. 18 (2012), 56–66 (t. 63).

ym mywyd deallusol y wlad. Ar y naill llaw ffurfiodd fwa, neu bont, rhwng cychwyn a chwblhad y mudiad prifysgol, yn union rhwng apêl Hugh Owen yn 1854 a sefydlu'r brifysgol ffederal yn 1893. Fel y cyfryw cynrychiolodd y *Gwyddoniadur* fath o 'brifysgol y werin', trothwy rhwng rhamantiaeth genedlaethol ac agweddau academaidd a phroffesiynol. Felly – a chymryd un enghraifft – yr oedd yn cynnwys nifer o erthyglau hirwyntog ar bynciau *cynhanesyddol*, fel y rhai damcaniaethol a choelgar am '[F]ardd' yn y gyfrol gyntaf, sydd yn hollol Ioloaidd o hyd ac yn tarddu o gylch Silvan Evans, mae'n debyg,⁵¹ neu am 'Egwyddor' (yn ystyr 'yr wyddor') ac 'Iaith',⁵² tra bod dadansoddiad o '[Dd]erwyddiaeth' gan William Roberts (Nefydd) yn llawer mwy beirniadol. Manyl yn hynod yw mai oddi mewn i'r testun am y beirdd y mae hanes yr Eisteddfod yn cael ei drafod yn y fersiwn gwreiddiol; nid felly yn yr ailgraffiad.⁵³

Ar y llaw arall ffurfiodd y *Gwyddoniadur* bont, neu fwa, rhwng dechrau gweithgaredd gwleidyddol yr Ymneilltuwyr a'i gwblhad yn Cymru Fydd. Ar y 'ffin grefyddol', chwedl Ieuan Gwynedd Jones, yr oedd y weinidogaeth yn arwain y genedl yn erbyn bygythiad oddiwrth y diwylliant Seisnig, gan amddiffyn swyddogaeth y capel yn erbyn dylanwadau seciwlar.⁵⁴ Hebryngodd y 'deffroad cenedlaethol' a'r 'deffroad crefyddol' ei gilydd, fel y nododd sylwebydd cyfoes Almaenig, Heinrich Zimmer.⁵⁵ Yn sgil hynny, byddai argyfwng yr eglwysi ar ddiwedd y ganrif yn cydynd ag argyfwng y genedl, a dilyn ymresymiad grymus R. Tudur Jones⁵⁶ – er i argyfwng y genedl brofi yn llai tyngedfennol nag y tybiodd ef.

Prin iawn oedd y sefyllfa honno yn Ewrop gyfan. Dichon y ceir cyffelybiaeth yn Holand yn unig – y wlad, gyda llaw, lle golygwyd y gwyddoniadur *Iseldireg sylweddol* cyntaf gan bregethwr, y Parch. Anthony Winkler-Prins, yn fuan ar ôl Parry, o 1866 ymlaen. Yno esgorodd anffodlonrwydd y Calfiniaid caeth ar bersonaliaeth eithriadol Abraham Kuyper. Mae cenadwri Kuyper yn ein hatgoffa o werthoedd a blaenoriaethau'r Gymru Anghydfurfiol gyfoes: rhagluniaetholdeb; beiblyddiaeth; mudiadau'r *kleine luyden* (sef y werin bobl, yn fras); diddordeb yn hanes y ffydd ddatguddiedig a dioddefiannau'r gwir gredinwyr. Yn 1886 ymneilltuodd Kuyper a daeth yn sefydlydd plaid wleidyddol, wedyn hyd yn oed yn brif weinidog yr *Iseldiroedd*: tad cyfundrefn o arwahaniad yn y gymdeithas *Iseldiraedd* sy'n dwyn yr enw 'verzuiling'.⁵⁷

Pam na ddigwyddodd y fath beth yng Nghymru? Cawn ben llinyn yn naws y

51 *Gwyddionadur* (1 arg.), I, tt. 525–61; cf. Marion Löffler, *The Literary and Historical Legacy of Iolo Morganwg, 1826–1926* (Caerdydd, 2007), tt. 84f, 88, 92.

52 *Gwyddionadur* (1 arg.), IV, tt. 227–62 (Egwyddor); V, tt. 630–58 (Iaith).

53 *Gwyddionadur* (1 arg.), I, tt. 546–61; (2 arg.), X, tt. 988–1005.

54 Jones, *Communities*, tt. 211–36.

55 H. Zimmer, 'Der Pan-Keltismus in Großbritannien und Irland', *Preußische Jahrbücher*, 92 (1898), 426–94; 93 (1898), 59–93, 294–334.

56 R Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a Diwylliant yng Nghymru, 1890–1914* (2 cyf., Abertawe, 1981–2).

57 Jeroen Koch, *Abraham Kuyper: een biografie* (Amsterdam, 2006); C. Augustijn and J. Vree, *Abraham Kuyper: vast en veranderlijk. De ontwikkeling van zijn denken* (Zoetermeer, 1998); J. Vree, *Kuyper in de kiem: de precalvinistische periode van Abraham Kuyper, 1848–1874* (Hilversum, 2006). Mae cyflwyniad da gan M. J. Wintle, *Pillars of Piety. Religion in the Netherlands in the Nineteenth Century, 1813–1901* (Hull, 1987), tt. 53 ff.

Gwyddoniadur ei hunan. Nid oedd yn rhannu pwyslais Michael D. Jones, nid oedd yn dilyn patrwm Kossuth neu Mazzini, ar ymwahaniaeth ieithyddol a diwylliannol, nac eiddo Emrys ap Iwan chwaith.⁵⁸ Ychydig o sylw a gafodd yr Wladfa Gymreig, hyd yn oed yn yr ailargraffiad.⁵⁹ Safodd yn gadarn yn nhraddodiad yr Ymerodraeth Brydeinig, gan bregethu yn llym, er enghraifft, yn erbyn diwylliant brodorol yn India.⁶⁰

I grynhoi: golwg ar fyd cyfyngedig iawn a geir gan y *Gwyddoniadur Cymreig*, ond *Weltanschauung* go-iawn Ymneilltuwyr oes Victoria oedd honno. Ystyriasant Gymru fel gwlad yr addewid – ond Cymru fel adlewyrchiad o wirionedd a oedd yn gorwedd yn y Tir Sanctaidd o hyd. O leiaf llwyddasant i gadarnhau iaith y nefoedd yn y broses. Ffurfiodd y *Gwyddoniadur*, yn y lle olaf, fwa, neu bont, rhwng unieithedd cyffredin canol y ganrif a'r gofidion cyntaf am barhad yr iaith, ateb a her i'r don o leisiau trwy'r holl gyfnod a oedd yn rhoi'r gorau yn gyhoeddus i'r Gymraeg fel cyfrwng diwylliedig ('the "maintenance" of the Welsh language' – yng ngeiriau Cymdeithas yr Iaith gyntaf – 'is no part of the Society's objects').⁶¹ Felly prif orchest y *Gwyddoniadur* oedd estyn gorwelion a chodi hunanhyder ysgolheictod Cymraeg ei iaith. Hebdo mae'n hollol bosib na fyddai cyfarfod fel yr un heno yn cymryd lle yn y Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain.

[SUMMARY]

Wales and the World in the Nineteenth Century: The Welsh Encyclopedia

In this article, Professor Robert Evans recounts the story behind the publication of the first encyclopedia in Welsh, *Y Gwyddoniadur Cymreig neu Encyclopaedia Cambrenis*, which was published in ten volumes – the largest publication ever produced in Welsh up to that time – between 1854 and 1879. It was sold in parts, for a shilling each, with twelve parts making up each volume. The encyclopedia was a huge success, selling three to four million copies during its publication run with further reprints and a second edition appearing between 1889 and 1896.

The encyclopedia was the brainchild of three men, Daniel Sylvan Evans, Robert John Pryse, and Thomas Gee, the publisher from Denbigh. Gee's son-in-law, John Parry, was appointed editor of the whole project. The many authors of the various entries in the encyclopedia are anonymous, but these four men were among the writers who produced between them hundreds of entries. Most of the authors were Nonconformists, many of them ministers.

Professor Evans suggests that the publication of *Y Gwyddoniadur Cymreig*

58 James a Jones (gol.), *Michael D. Jones*; id., *Codi'r Hen Wlad*, tt. 141–71; Dafydd Glyn Jones, *Agoriad yr Oes* (Talybont, 2001), tt. 146–66.

59 *Gwyddoniadur* (2 arg.), X, t. 740D (Patagonia); X, t. 1011 (Y Wladfa Gymreig).

60 Cf. Jones, 'Culture, "Race", and the Missionary Public'.

61 Hywel Teifi Edwards, 'Y Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', *Cof Cenedl*, 2, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1987), 119–51 (dyfyniad t. 149); cf. id., *Codi'r Hen Wlad*; Millward, 'Pob Gwybodaeth Fuddiol'; Morgan, *Lewis Edwards*, tt. 177 ff.

was part of a wider response to the process of anglicization in Wales in the late nineteenth century and to competing religious ideologies, particularly the Oxford Movement and the growth of Roman Catholicism in Wales. He also demonstrates that the Welsh encyclopedia was part of a trend towards such publications in continental Europe, particularly France and Germany. While the *Gwyddoniadur* made an important statement about the power of Welsh scholarship and language, and about Wales as a 'promised land', it also contributed to a vision of British imperialism in the Victorian age.